CYFARWYDDWR
Ffotogallery, Cymru

Mae Ffotogallery yn bwriadu penodi Cyfarwyddwr i arwain y sefydliad. Rydym yn chwilio am unigolyn creadigol, uchelgeisiol sy'n gallu adeiladu ar 40 mlynedd o hanes i annog ymgysylltiad dyfnach a dealltwriaeth y cyhoedd o ffotograffiaeth a'i gwerth i gymdeithas.

Pecyn y Swydd
Medi 2021

Llythyr gan y Cadeirydd

Ddiwedd y flwyddyn hon, bydd David Drake yn ymddiswyddo fel Cyfarwyddwr Ffotogallery ar ôl deuddeng mlynedd wrth lyw sefydliad arweiniol Cymru mewn ffotograffiaeth a chyfryngau'r lens. Wrth i ni ystyried croesawu Cyfarwyddwr newydd i gymryd y rôl o arwain y sefydliad, byddwn yn gwneud hynny o safle cryf iawn.

Cafodd Ffotogallery ei sefydlu yn ôl yn 1978, ac mae ganddo hanes cadarn o hybu dawn sy'n dod i'r amlwg a thalent sydd wedi sefydlu'n barod o Gymru a thu hwnt. Mae ganddo hanes hefyd o ddathlu'r grym a'r effaith y gall ffotograffiaeth a chyfryngau'r lens eu cael yn ein bywydau. Rydym yn un o 67 aelod o Bortffolio Celfyddydau Cymru – artistiaid a sefydliadau sy'n derbyn grantiau blynyddol gan Gyngor Celfyddydau Cymru tuag at eu costau craidd a'u gweithgareddau.

Mae'r Cyfarwyddwr yn arwain tîm o bum aelod o staff, o'n canolfan yng Nghaerdydd, prifddinas Cymru. Yn 2019, aethom ati i symud i'n cartref newydd, sef adeilad rhestredig Graddfa 2 oedd yn Neuadd Eglwys ar un cyfnod. Mae'n cynnwys oriel benodedig, llyfrgell ac ystafell adnoddau, swyddfa a siop lyfrau fach ac mae wedi ei seilio'n agos at ganol y ddinas a phrifysgolion y ddinas.

Rydym yn darparu llawer o'n gwaith mewn partneriaeth ag amrywiaeth fawr o sefydliadau yng Nghymru, ar draws y DU ac yn rhyngwladol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd partneriaethau o'r fath, y gwerth y maen nhw'n ei rhoi i'n gwaith a'r effaith y gall partneriaethau effeithiol ei chael yn y cymunedau y gweithiwn â nhw.

Mae ein Gŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol eilflwydd, Diffusion, a sefydlwyd yn 2013 wedi bod yn bont bwysig hefyd rhwng Cymru a'r byd. Bydd yn cynnal ei phumed gŵyl yn hydref 2021.

Mae digonedd o heriau wedi ein hwynebu dros y deunaw mis diwethaf, ond byddwn yn dod allan o'r pandemig yn ariannol iach, gyda ffocws mwy penodol ar ein cenhadaeth, a gyda'n cartref newydd yn barod i groesawu artistiaid a chynulleidfaoedd.

Mae hwn yn gyfle unigryw i unigolyn dynamig helpu i arwain y sefydliad i mewn i'r dyfodol a diolchwn i chi am eich diddordeb yn y swydd. Rydym yn deall y gallai bod gennych gwestiynau am y rôl hon, felly mae croeso i chi gysylltu â mi'n uniongyrchol gydag unrhyw ymholiadau sydd gennych cyn gwneud cais. Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Mathew Talfan
Cadeirydd, Ffotogallery

Gair am Ffotogallery

Alina Kisina, prosiect ***Children of Vision*** *gydag Ysgol Gynradd Garth yn Diffusion 2019*

Arddangosfa ***Work to be Done****, rhan o brosiect A Woman's Work, Ffotogallery, Chwefror 2020*

Ffotogallery yw un o sefydliadau arweiniol y DU ar gyfer ffotograffiaeth gyfoes a chelfyddyd y lens. Rydym yn comisiynu ac yn cyflwyno gwaith amrywiol a rhagorol o Gymru a'r byd, yn cefnogi datblygiad artistiaid, ac yn arddangos gwaith cyffrous newydd a ddatblygwyd yng Nghymru.

Ers ei ffurfio yn 1978, mae Ffotogallery wedi bod ar flaen y datblygiadau newydd mewn ffotograffiaeth a chyfryngau'r lens yng Nghymru a thu hwnt, gan annog dealltwriaeth y cyhoedd am ffotograffiaeth a gwerthfawrogiad ehangach o'r rôl y mae'n ei chwarae yn ein dealltwriaeth o'r byd o'n cwmpas.

Ein diben

Rydym eisiau i bawb allu mwynhau profiadau gweddnewidiol drwy ffotograffiaeth a'i chyfryngau cysylltiedig. Ein cenhadaeth yw harneisio grym y celfyddydau gweledol i weddnewid bywydau pobl, p'un a ydyn nhw eisiau bod yn ffotograffwyr ac artistiaid sy'n ceisio eu mynegi eu hunain drwy eu gwaith, neu'n aelodau o gynulleidfa sy'n edrych ar syniadau newydd am y byd drwy'r delweddau y maen nhw'n eu gweld mewn arddangosfa, mewn llyfr neu ar-lein.

Mae'n bwysig i ni bod ein harddangosfeydd a'n digwyddiadau, cyhoeddi, dysgu a gweithgareddau ymgysylltu yn cysylltu â'r cymunedau a'r cymdogaethau diwylliannol amrywiol yr ydym yn eu gwasanaethu, gan sicrhau bod y trigolion i gyd yn gallu cyfrannu at ein llwyddiant ac elwa ohono.

Mae Ffotogallery yn parhau i weithio'n galed i ymdrin ag anghydraddoldeb cymdeithasol; rydym yn gwerthfawrogi'r rôl y mae pobl o bob rhan o'n cymdeithas yn gallu ei chwarae i greu sîn gelfyddydau fywiog. Gwyddom y bydd y celfyddydau yn y DU, ac yng Nghymru yn arbennig, yn gryfach ac yn fwy cyffrous a pherthnasol i fwy o bobl os byddwn yn croesawu amrywiaeth. Rydym yn edrych yn gyson ar y pethau a wnawn a'r ffordd yr ydym yn gweithio drwy lygaid ffres, gan wybod y bydd hynny'n helpu i adfywio ein dull ac ehangu mynediad i'r celfyddydau.

Trwy ein cynnig ar-lein estynedig ac arddangosfeydd teithiol Ffotogallery, ein cyhoeddiadau a phedair gŵyl flaenorol Diffusion: Gŵyl Ryngwladol Ffotograffiaeth Caerdydd, mae ymestyniad ac effaith ein gwaith yn lleol ac yn fyd-eang.

Gair am Ffotogallery

Ein gweithgareddau

Mae cwmpas ein gweithgareddau presennol yn eang, ac maen nhw'n cynnwys;

- Arddangosfeydd, gweithgareddau cyhoeddi mewn print ac ar-lein a phrosiectau sy'n adlewyrchu esblygiad y cyfrwng ffotograffig a'i rôl yn y byd
- Comisiynu ac arddangos gwaith artistiaid newydd a sefydledig ac arferion traws-ddisgyblaethol sy'n ymateb i natur esblygol y cyfrwng
- Sefydlu a rhedeg yr ŵyl eilflwydd Diffusion: Gŵyl Ryngwladol Ffotograffiaeth Caerdydd www.diffusionfestival.org sydd eleni ar ei phumed tro
- Datblygu adnoddau dysgu, trefnu sgyrsiau a digwyddiadau, cyrsiau a gweithdai i gefnogi arferion, cyfnewid gwybodaeth a gwerthfawrogiad
- Darparu stiwdio greadigol a gweithle digidol i ymarferwyr creadigol, grwpiau sy'n cydweithredu ac artistiaid rhyngwladol sy'n ymweld
- Cadw deunyddiau archifol cyfredol a chynhyrchu rhai newydd a sefydlu llyfrgell newydd i'w gwneud nhw'n hygyrch i'r cyhoedd
- Cyfleoedd i wneud interniaethau, gwirfoddoli a datblygu sgiliau ar draws holl amrywiaeth gwaith y sefydliad

Go Home Polish, Michal Iwanowski yn Diffusion 2019
(llun gan Philip Jenkins)

Gair am Ffotogallery

Ein platfformau

Ym mis Medi 2018 aethom ati i symud i'n cartref presennol yng Nghaerdydd, sy'n ganolfan gynhyrchu ac hefyd yn ystafell arddangos; man lle mae syniadau newydd a phrosiectau creadigol yn cael eu cynhyrchu ac hefyd safle croesawgar sy'n cynnig cyfleoedd llawn ysbrydoliaeth i weld ffotograffiaeth gyfoes. Yn ogystal ag oriel a man cynnal digwyddiadau rhagorol, mae'r ganolfan newydd yn cynnwys llyfrgell/ystafell adnoddau hygyrch i'r cyhoedd, stiwio greadigol a siop lyfrau fechan.

Yn y byd rhithiol, mae ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol, a'n gweithgareddau digidol estynedig, yn ein galluogi i rannu ein harddangosfeydd, prosiectau, archifau a gwaith cyfranogol gyda chynulleidfa fyd-eang ehangach, gan ddarparu platfform cyffrous i ddysgu ac ymgysylltu. Mae'r cyfnod clo hir a'r cyfyngiadau ar deithio a chwrdd yn gyhoeddus wedi ein hannog i gynyddu ein gwaith o greu a dosbarthu cynnwys digidol, ac i fuddsoddi mewn platfformau ymgolli 3D ac arddangosfeydd rhithiol newydd.

Mae ein llinyn cyfredol o waith wedi ei adeiladu o amgylch y thema Nifer o Leisiau, Un Genedl – gyda'r brif nod o ddangos cyfoeth ac amrywiaeth daearyddiaeth, diwylliant a chymdeithas Cymru. Trwy gyfrwng y gwaith hwn rydym eisiau hybu mwy o amrywiaeth diwylliannol, mynediad a chynhwysiad, gan hefyd wneud cyfraniadau go iawn i ddysgu gydol oes. I ddarllen rhagor am waith Ffotogallery, ewch i'r gwefannau dilynol:

www.ffotogallery.org



www.diffusionfestival.org



www.theplaceicallhome.org

Y Cyfarwyddwr

Diben y Rol

Mae'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am arweiniad artistig a strategol y sefydliad. Y rôl ddeuol hon o gynllunio a darparu ein rhaglen artistig gan hefyd gynnal trefn a gwydnwch y sefydliad, yw'r gwaith dwy ffrwd sy'n sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion elusennol ac addysgol bob amser.

Mae'r Cyfarwyddwr yn ysbrydoli ein Bwrdd a'n tîm o staff, gan eu cefnogi i roi syniadau creadigol ar waith a goresgyn heriau. Mae'n chwarae rôl allweddol mewn sefydlu partneriaethau a gweithgareddau newydd a fydd yn bywiocáu arddangosfeydd a chyflwyniad ein gwaith ar-lein mewn ffyrdd sy'n ennyn diddordeb ein cynulleidfaoedd targed a'n cyfranogwyr.

Mae'n gyfrifol am siapio a diweddaru ein cynllun busnes, darparu gwaith sy'n cyflawni amcanion y cynllun hwnnw, ac adrodd i'r Bwrdd a'r arianwyr. Mae'n arwain y gwaith codi arian ac yn cyfathrebu ein cynnig i artistiaid a chynulleidfaoedd, arianwyr a rhanddeiliaid.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr

Mae prif ddyletswyddau'r Cyfarwyddwr yn cynnwys;

- Darparu arweiniad a ffocws strategol, drwy osod targedau sefydliadol clir a gweithio i'w cyflawni nhw.
- Darparu arweiniad artistig wrth ddatblygu rhaglenni Ffotogallery, yn cynnwys arddangosfeydd, prosiectau, a digwyddiadau, gweithgareddau addysgol ac ymgysylltiad digidol.
- Sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiadau'n llawn i fynediad, amrywiaethu a chynhwysiad.
- Cynrychioli'r sefydliad a'i waith i arianwyr, partneriaid allanol, y cyfryngau a rhanddeiliaid
- Cynnal gallu, gwydnwch a thwf y sefydliad. – Arwain prosesau codi arian a chynllunio busnes mewn deialog â'r Bwrdd a'n tîm staff, i sicrhau incwm cynaliadwy ac amrywiol sy'n cefnogi targedau strategol ac amcanion elusennol Ffotogallery.
- Cefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei rôl a'i gyfrifoldebau.
- Rheoli cyllideb y sefydliad a chynnal ein cynaliadwyedd ariannol.
- Sicrhau bod polisïau ariannol, rheolaeth a gweithdrefnau'n gadarn ac yn gyfatebol ag arferion gorau.

Gair amdanoch chi

Am ba fath o berson ydyn ni'n chwilio felly? Rydym yn chwilio am arweinydd dynamig a chreadigol sy'n gallu ysbrydoli'r tîm a phawb y mae'n gweithio â nhw.

- Rydych yn hynod o frwdfrydig am ffotograffiaeth a chyfryngau'r lens, ac mae gennych wybodaeth estynedig ac ymgysylltiad eang ag arferion cyfoes mewn cyd-destunau cenedlaethol a rhyngwladol.
- Mae gennych gefndir cadarn ar lefel uwch mewn sefydliad diwylliannol, yn darparu llwyddiant artistig, gwydnwch mewn busnes ac yn dangos arweiniad tîm effeithiol a rheolaeth dda ar berthnasoedd gyda phartneriaid a rhanddeiliaid.
- Rydych wedi gweithio'n broffesiynol am o leiaf dair i bum mlynedd mewn rôl berthnasol.
- Rydych yn feddyliwr strategol gyda dull creadigol uchelgeisiol a'r gallu i arwain drwy esiampl ac ennyn y gorau gan bobl eraill.
- Rydych yn deall amgylchedd gweithredol y sector diwydiannau creadigol a'r celfyddydau yng Nghymru, a'r DU yn ehangach, ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ieithoedd deuol Cymru.
- Mae gennych hanes o guradu a darparu arddangosfeydd, prosiectau a digwyddiadau sy'n ysbrydoli.
- Mae gennych ymrwymiad i ehangu mynediad, cynhwysiad ac amrywiaeth yn y celfyddydau, a chydweithredu'n rhagweithiol ag eraill, yn cynnwys artistiaid, addysgwyr, cynulleidfaoedd a phartneriaid y prosiect.
- Rydych yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r cyhoedd a'r staff ac yn gallu cynrychioli Ffotogallery yn hyderus i arianwyr, partneriaid a rhanddeiliaid.
- Mae gennych allu busnes a gwleidyddol da, a phrofiad o godi arian yn llwyddiannus a goruchwylio prosiectau cymhleth i sicrhau gwydnwch y sefydliad
- Mae gennych sgiliau trafod a diplomataidd cryf a'r gallu i adeiladu perthnasoedd mewnol ac allanol effeithiol
- Gallwch werthfawrogi arferion gorau o ran gweithio gyda Bwrdd a gweithredu cwmni elusennol
- Gallwch barhau'n wydn o dan bwysau ac mae gennych ddull effeithiol o ddatrys heriau a chanfod atebion creadigol.
- Rydych yn hapus i deithio i Gaerdydd i weithio neu symud i fyw, os oes angen, a byddwn ni'n darparu cymorth i chi gyda hynny.
- Efallai bod gennych anghenion penodol sy'n gofyn cymorth ac addasiad ychwanegol i'r arferion a'r amgylchedd gwaith; bydd Ffotogallery yn ceisio ymdrin ag unrhyw anghenion sydd gennych, a hynny o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Gwybodaeth pellach

Cysylltiadau Gwaith

Gan adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd, byddwch yn arwain tîm craidd Ffotogallery sydd, ar hyn o bryd, yn cynnwys Rheolwr Arddangosfeydd, Rheolwr Dysgu ac Ymgysylltu, Rheolwr Gweithrediadau, Cydlynydd Cynhyrchu a Chynhyrchydd Creadigol.

Yn ogystal, rydym yn gweithredu cynllun interniaeth gyda thâl yn rheolaidd, yn ogystal â defnyddio cronfa o weithwyr llawrydd a chyflenwyr i ddarparu prosiectau ac agweddau penodol o'n rhaglen. Byddwch yn chwarae rôl allweddol mewn datblygu'r cynlluniau hyn ac yn gweithio gydag ystod eang o unigolion a sefydliadau i helpu i ddarparu ein gwaith.

Rydym yn sefydliad sydd wedi'i ymrwymo i ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac o fewn cyfyngiadau'r gyllideb mae pob aelod o'r staff yn derbyn hyfforddiant a chymorth i ddatblygu, yn cael eu mentora ac yn cael chyfle i gysylltu â rhwydwaith o gymheiriaid a chyn-fyfyrwyr sy'n gweithio yn y sector diwylliannol a chelfyddydau ledled y DU.

Mae'n arferol gweithio'n hyblyg a chydweithredol hefyd o ystyried maint gweddol fach ein sefydliad a'r angen i wneud dyletswyddau pobl sydd ar wyliau neu adre'n sâl.

Cyflog/Oriau/Gwyliau

Bydd hwn yn safle parhaol llawn amser (yn amodol ar gyfnod prawf o chwe mis)

- Y cyflog yw £40,000 y flwyddyn am 35 awr yr wythnos dros 5 diwrnod.
- Oriau agor busnes Ffotogallery yw 9.30am – 5.30pm, Dydd Llun i Ddydd Sadwrn.
- Bydd dyddiau gwaith pob aelod o staff wedi eu hamserlennu yn unol â hynny. Pan fydd angen gweithio tu allan i oriau, er enghraifft pan mae ymrwymiadau gyda'r nos ac ar y penwythnos, caniateir amser i ffwrdd yn lle hynny.
- Mae gan Ffotogallery gynllun pensiwn y cwmni yn unol â gofynion y Llywodraeth.
- Cesglir hawl gwyliau ar sail y 2 ddiwrnod y mis a weithwyd, a'r gwyliau cyhoeddus.

Sut bydd Covid-19 yn effeithio ar y rôl?

Rydym yn byw mewn adeg ansicr o ran cyfyngiadau yn y dyfodol ar deithio, ymgasglu'n gyhoeddus a chyrchu ein gweithle. Parhaodd y tîm i weithio yn ystod y cyfnod clo drwy ganiatáu hyblygrwydd yn y ffordd y mae ein gwaith yn cael ei strwythuro a thrwy gynnal cydbwysedd rhwng y cartref a'r gweithle o ran ein rolau a'n cyfrifoldebau. Rydym wedi darparu prosiectau ar-lein sy'n torri tir newydd, wedi diweddaru ein cyfleusterau ac wedi gwella mynediad. Aethom ati i ail agor ein horiel i'r cyhoedd ym mis Mai 2021, ac mae mesurau newydd yn eu lle erbyn hyn i sicrhau hyder a lles staff ac ymwelwyr, y mae eu hiechyd a'u diogelwch yn parhau o'r pwysigrwydd mwyaf i ni. Am fod y sefyllfa'n newid drwy'r amser, rydym yn disgwyl cael trefniadau gweithio priodol yn eu lle yng nghyd-destun y canllawiau iechyd cyhoeddus newidiol.

Gwiriadau DBS

Rydym wedi ein hymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion bregus ac rydym yn disgwyl i'r staff i gyd rannu'r ymrwymiad hwn. Mae'r swydd hon yn gweithio mewn gweithgareddau a reoleiddir. Os byddwch chi'n llwyddiannus, byddwn yn gwneud rhagor o wiriadau recriwtio a fydd yn cynnwys gwiriad DBS (y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) i weld a ydych wedi cael unrhyw euogfarnau troseddol, gwiriad o wybodaeth yr heddlu a byddwn yn gwirio'r rhestr(au) gwahardd. Mae'n drosedd i unigolyn sydd wedi'i wahardd wneud cais am swydd mewn gweithgaredd a reoleiddir.

Y broses ymgeisio

Eich cais

Darparwch y canlynol os gwelwch yn dda:

– Datganiad byr yn esbonio pam yr hoffech chi arwain Ffotogallery a sut mae eich profiad yn berthnasol i'r rôl hon (dim mwy na 2 dudalen o A4 neu fideo 3 munud)

– CV cryno (gyda 2 ganolwr)

Dyddiad cau i geisiadau: Dydd Gwener, Hydref 22ain, 5pm

Y broses dethol

Dyma fydd y broses ddethol:

– Bydd gwahoddiad i ymgeiswyr ar y rhestr fer ddod i gyfweliad ar y safle yn Ffotogallery yng Nghaerdydd (yn amodol ar Ganllawiau Covid-19 Llywodraeth Cymru ar y pryd).

– Gallai'r ymgeiswyr sy'n cael eu dethol ar gyfer y cam nesaf gael eu gwahodd i gael ail gyfweliad

Dyddiadau'r cyfweliadau: Yn gynnar ym mis Tachwedd, dyddiad i'w gadarnhau

Mae Ffotogallery yn ymroddedig i gydraddoldeb cyfle ac i gefnogi amrywiaeth a chynhwysiad ar draws holl agweddau ei waith. Mae ein tîm o staff yn dod ag amrywiaeth o safbwyntiau i'n sefydliad ac rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector celfyddydau gweledol, yn cynnwys pobl Ddu, Asiaidd neu o dreftadaeth ethnig leiafrifol, rheiny sydd wedi wynebu rhwystrau economaidd-gymdeithasol, rheiny sy'n hunaniaethu yn LGBTQ+ a'r rheiny gydag anableddau. Bydd yr holl geisiadau am y safle hwn yn cael eu trin yn gydradd ac yn gyfrinachol. Byddwn yn recriwtio ar gyfer y safle hwn ar sail teilyngdod.

Hygyrchedd

Os byddwch angen anfon eich gwybodaeth mewn fformat gwahanol er mwyn gallu gwneud cais, neu os ydych eisiau i ni wneud unrhyw addasiadau rhesymol eraill i'ch helpu yn ein proses recriwtio, cysylltwch ag Alex Butler, Rheolwr Gweithrediadau ar alex@ffotogallery.org

Cyflwyno eich cais

Dylid anfon pob cais ac ymholiad ar yr e-bost i alex@ffotogallery.org